## Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru
**Cyfarfod hybrid - drwy Microsoft Teams / Ystafell Amroth, Parc Cathays 2, Caerdydd, CF10 3NQ**
**Dydd Iau 21 Medi 2023**

## Cofnodion

### Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Mark Drakeford AS | Prif Weinidog Llywodraeth Cymru (Cadeirydd) |
| Hannah Blythyn AS | Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol (Cyd-gadeirydd) |
| Jane Hutt AS | Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip |
| David TC Davies | Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Dr. Richard Lewis | Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys |
| Pam Kelly | Prif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Jeremy Vaughan | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Amanda Blakeman | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| Rachel Williams | Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Andy Dunbobbin | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Alun Michael | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Eleri Thomas | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Emma Wools | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Nick Wood | Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Gary Haggaty | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Lucy Akhtar | Uwch-reolwr, y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Leanne Lewis | Y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Susie Abson | Pennaeth Polisi, Economi'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru |
| David Willis | Pennaeth Trechu Tlodi, Llywodraeth Cymru |
| Tracy Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Chris Batchelor | Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu a Strategaeth Ryngwladol a Domestig, y Swyddfa Gartref |
| Gregg Dyer | Pennaeth Materion Domestig, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Chris Jennings | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi |
| Chris Llewelyn | Prif Weithredwr CLlLC |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLlLC |
| Mark Brace | Pennaeth Interim y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, CLlLC |
| Carys Morgans | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Sian Curley | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Lee Jones | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Stephen Hughes | Prif Weithredwr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Umar Hussain | Prif Swyddog Ariannol, Heddlu De Cymru |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Christina Fraser | Prif Arolygydd, Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Owen Woolcock | Dadansoddwr/Swyddog Polisi, Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Asif Afsar | Cydlynydd Busnes Cymru Gyfan, Plismona yng Nghymru |
| Joanna Huddleston | Gweinyddydd, Uned Gyswllt yr Heddlu |

Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Mick Antoniw AS | Cwnsler Cyffredinol Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Jeff Cuthbert | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Wayne Jones | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Jenny Hopkins | Prif Erlynydd y Goron, Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| Judith Paget | Cyfarwyddwr Cyffredinol HSSG, Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Amy Rees | Prif Weithredwr, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| ACC Ifan Charles | Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Heddlu Dyfed Powys |
| T/ACC Jason Davies | Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Heddlu De Cymru |

| Camau gweithredu yn codi o'r cyfarfod | |
|---|---|
| Trafod Risg/Cydnerthedd Ariannol heddluoedd Cymru yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. | Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Cyfraniadau ariannu Plismona yng Nghymru i'w cynnwys yn y drafodaeth ynghylch risg/cydnerthedd ariannol yn y cyfarfod nesaf. | Uned Gyswllt yr Heddlu |

## 1. Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

Agorodd y Prif Weinidog y cyfarfod gan groesawu aelodau Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Nododd y Prif Weinidog mai hwn fyddai cyfarfod olaf Chris Jennings yn ei rôl fel Prif Weithredwr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yng Nghymru. Diolchodd y Prif Weinidog i Chris am y cyfraniad sylweddol y mae wedi'i wneud at waith partneriaeth effeithiol yng Nghymru, gan ychwanegu y byddai Ian Barrow yn olynu Chris.

Nododd y Prif Weinidog iddo gyfarfod â Bryn Hughes yn Seremoni Gwobrau Dewrder yr Heddlu, sy'n ymgyrchu dros roi medal Croes Elizabeth er mwyn cydnabod y rhai yn y gwasanaethau brys sydd wedi colli eu bywydau wrth gyflawni eu dyletswydd, a hynny ar ôl eu marwolaeth. Ychwanegodd y Prif Weinidog hefyd iddo gyfarfod â rhai o'r swyddogion a enwebwyd am Wobrau Dewrder yr Heddlu yn y Senedd ochr yn ochr ag Andrew RT Davies AS ar 20 Medi 2023 a nododd y bydd Llywodraeth Cymru yn dangos ei chefnogaeth yn ffurfiol drwy gyflwyno datganiad ysgrifenedig ynghylch yr Ymgyrch Medalau i Arwyr a Fu Farw.
Datganiad Ysgrifenedig: Diwrnod Coffa Cenedlaethol yr Heddlu a chefnogaeth i'r ymgyrch Medalau i Arwyr a fu Farw (26 Medi 2023) | LLYW.CYMRU

## 2. Gair o Groeso a Sylwadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Diolchodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, David TC Davies AS i'r Cadeirydd am y cyfle i ddod i'r cyfarfod a rhoi diweddariad. Nododd ei fod yn ymwybodol bod y gwaith y mae'r heddlu yn ei wneud yn gorgyffwrdd â gwaith a wneir drwy'r Senedd a'i fod o'r farn, felly, ei bod yn ddefnyddiol y gall yr heddlu gyfarfod â Llywodraeth Cymru yn y fforwm hwn. Nododd hefyd, os bydd angen cydgysylltu â Chabinet Llywodraeth y DU, y byddai'n fodlon helpu gyda hyn, am fod plismona yn fater a gedwir yn ôl o dan gylch gwaith y Swyddfa Gartref ond na ddylai hyn atal unigolion yn y sector cyhoeddus rhag cynnal trafodaethau â chyrff etholedig eraill a allai fod yn fuddiol i'r cyhoedd.

## 3. Ymddiriedaeth a Hyder mewn Plismona

### 3.a. Sesiwn ymgysylltu â'r Farwnes Casey

Nododd Paul Morris fod ymddiriedaeth a hyder wedi'u trafod yng nghyfarfod Plismona yng Nghymru yn gynharach ym mis Medi ac mai'r consensws oedd, er bod llawer o waith da yn cael ei wneud, fod ystyriaeth lawn wedi'i rhoi i'r mater hwn yng nghyfarfod diwethaf Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru ac, felly, mai dim ond diweddariad byr y byddai ei angen heddiw.

Esboniodd y Comisiynydd Michael fod adolygiad y Farwnes Casey yn canolbwyntio'n bennaf ar broblemau yr oedd yr Heddlu Metropolitanaidd yn eu hwynebu. Nododd y byddai'r heriau hyn i'w cael ym mhob heddlu gan fod gan bob heddlu ei ddiffygion dynol ond gofynnodd beth dylid ei wneud yn eu cylch. Nid yw heddluoedd Cymru yn yr un sefyllfa ond cydnabyddir bod problem o ran ymddiriedaeth a hyder mewn cymunedau ledled Cymru. Felly, mae Plismona yng Nghymru yn awyddus i ddysgu gan y Farwnes Casey. Nododd y Comisiynydd Michael iddo gysylltu â'r Farwnes Casey i weld a fyddai'n cytuno i gynnal sesiwn gyda Plismona yng Nghymru er mwyn iddi allu cymhwyso'r gwersi a ddysgodd gan yr Heddlu Metropolitanaidd at heddluoedd Cymru a gwasanaethau cyhoeddus eraill.
Ychwanegodd fod disgwyl i'r cyfarfod hwn gael ei gynnal ar 10 Hydref 2023.

**3.b. Diweddariad ar y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru ym mis Mehefin**

Rhoddodd y Prif Gwnstabl Kelly ddiweddariad ar y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru ym mis Mehefin 2023, sef:

- Ceisio cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid i sefydlu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol newydd ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig gan fod y systemau hyn yn gymhleth i'w llywio.
- Archwilio a sefydlu model adolygu systemig annibynnol a fyddai'n atgyfnerthu'r hyder sydd gan y gwasanaethau cyhoeddus mewn mecanweithiau presennol ar draws sefydliadau gyda'r gallu i rannu dysgu ac yna gweithredu ar hyn.
- Cael cymorth Gweinidogol wrth ymgysylltu â chydweithwyr mewn Awdurdod Lleol a Byrddau Iechyd mewn perthynas â gwersylloedd anawdurdodedig.

Esboniodd fod cryn dipyn o waith cadarnhaol yn mynd rhagddo mewn perthynas â chynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru gan nodi bod y dull partneriaeth yn effeithiol iawn. Cyfeiriodd at y cynllun peilot i dreialu hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol sy'n cynnwys pob partner yn y sector Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Esboniodd y Prif Gwnstabl Kelly, mewn perthynas â gwasanaethau Eiriolaeth, fod a wnelo plismona â gwrando ar yr hyn y mae cymunedau yn ei ddweud ac, er bod gwasanaethau eiriolaeth i'w cael, yr ymddengys nad oes defnydd llawn yn cael ei wneud ohonynt gan gymunedau ethnig lleiafrifol i godi pryderon ynghylch ymddygiad hiliol ac arferion gwahaniaethol.  Mae gwaith yn mynd rhagddo i ymgysylltu â grwpiau cynrychioliadol cymunedol er mwyn deall pam mae diffyg ymddiriedaeth mewn mecanweithiau eirioli presennol.
Esboniodd y Prif Gwnstabl Kelly fod cryn sylw yn cael ei roi i'r ffordd y mae partneriaid yn y sector Cyfiawnder Troseddol yn cydweithio i ddeall dysgu systemig a bod hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd er mwyn cynnwys modelau adolygu a ddefnyddir yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Ychwanegodd ei bod yn gobeithio dychwelyd er mwyn rhoi diweddariad ar gynnydd y gwaith hwn o ran hiliaeth a phartneriaid yn y sector Cyfiawnder Troseddol.

Ychwanegodd Joanne Hopkins y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn helpu i werthuso gwaith sy'n ymwneud â hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol, gan nodi bod disgwyl i ddigwyddiad gael ei gynnal ar 20 Hydref a fydd, gobeithio, yn dod ag academyddion at ei gilydd o bob rhan o Gymru a thu hwnt, o bosibl, er mwyn creu rhwydwaith. Ychwanegodd y gallwn ddod â gwersi a ddysgwyd o waith ar wrth-hiliaeth, gwahaniaethu, trawma hiliol ac ati i ategu'r gwaith hwnnw.

Rhoddodd Paul Morris sicrwydd hefyd fod yr Uwch-arolygydd Ian Roberts wedi bod yn gwneud gwaith penodol mewn perthynas â'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn sicrhau bod protocolau ar waith ynglŷn â gwersylloedd diawdurdod. Cydnabu fod problemau yn gysylltiedig â hyn, a nodwyd yn flaenorol gan adolygiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a phwysleisiodd fod gwaith yn mynd rhagddo ac y caiff ei gwblhau yn ystod y misoedd sydd i ddod.

Cydnabu'r Prif Weinidog fod ymddiriedaeth a hyder wedi'u trafod gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, Jane Hutt AS a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dunbobbin yn ystod eu cyfarfod dwyochrog misol ac na ddylai'r eitem hon fod yn eitem sefydlog ar yr agenda mwyach. Fodd bynnag, ychwanegodd y dylai fod lle bob amser ar yr agenda ar gyfer materion penodol y mae ymddiriedaeth a hyder yn greiddiol iddynt a chyfeiriodd at waith yr Uwch-arolygydd Roberts, fel enghraifft, a fyddai'n eitem ar yr agenda yn ei rinwedd ei hun. Pwysleisiodd bwysigrwydd peidio ag anghofio'r agweddau penodol hynny ar waith sy'n effeithio ar ymddiriedaeth a hyder mewn plismona.

Trosglwyddodd y Prif Weinidog y Gadair i'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, Hannah Blythyn AS.

## 4. Costau Byw – yr Effaith ar Gymunedau a Gwasanaethau

### 4.a. Troseddau Manwerthu

Dechreuodd y Prif Gwnstabl Blakeman drwy nodi ei bod yn rheoli Portffolio Troseddau Meddiangar Cenedlaethol Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu sy'n cwmpasu Troseddau Manwerthu. Esboniodd fod dwyn o siopau yn costio tua £2bn ac y rhoddir gwybod i heddluoedd am tua wyth miliwn o achosion o ddwyn bob blwyddyn. Disgrifiodd y Prif Gwnstabl Blakeman rai o ffactorau ysgogi dwyn o siopau sy'n cael eu nodi, megis tymoroldeb. Nododd fod y sefyllfa ariannol y mae rhai pobl ynddi yn cyfrannu at hyn, gyda phroblemau megis y rhyfel yn Wcráin yn effeithio ar gostau byw a chadwyni cyflenwi sydd, yn eu tro, yn effeithio ar y farchnad ail-law lle y gall unigolion werthu eu nwyddau wedi'u dwyn. Nododd fod y ffactorau ysgogi wedi'u hadolygu'n genedlaethol er mwyn mynd i'r afael â'r gost i'r sector plismona. Trafododd y gwahanol ymgyrchoedd sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd sy'n dangos graddau'r sefyllfa bresennol o ran y mater hwn, gan esbonio bod graddfa symudol o droseddu sy'n dechrau gyda phobl ifanc yn cymryd rhan mewn troseddoldeb, lle mae'r sector plismona yn ymateb drwy ddargyfeirio pobl ifanc o droseddoldeb, ond nododd nad hwn yw hanfod y broblem. Nododd y Prif Gwnstabl Blakeman mai'r ddau faes yr ystyria'r sector plismona mai nhw yw'r problemau mwyaf yw troseddu parhaus a Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol ar raddfa uwch sy'n camfanteisio ar unigolion, felly mae cyfle i ddeall hynny gyda'n gilydd.

Ychwanegodd mai'r nod yw deall Troseddau Cyfundrefnol yn well. Felly, mae'r sector plismona yn gweithio gyda manwerthwyr mawr y mae troseddu yn cael effaith sylweddol arnynt ac yn ystyried sut y gallant ddefnyddio'r cymorth y mae'r sector yn ei gynnig iddynt. Gellid gwneud hyn drwy ystyried cyfraniad gwirfoddol i greu capasiti i allu mapio'r unigolion hynny sy'n trefnu'r troseddoldeb hwn, ystyried deddfwriaeth ychwanegol a mynd i'r afael â'r ffactorau ysgogi hynny megis y marchnadoedd nwyddau wedi'u dwyn a dargyfeirio pobl o'r mathau hyn o droseddoldeb drwy drefniadau Rheoli Troseddwyr Integredig.

Esboniodd y Prif Gwnstabl Blakeman mai'r cam nesaf i gyflawni hyn yw ceisio llunio un dull o gofnodi troseddau, y bydd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Alex Goss yn gweithio arno, gan sicrhau mwy o gydweithredu rhwng y sector plismona a manwerthwyr mewn perthynas â'r ffordd y caiff gwybodaeth ei rhannu. Nododd fod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn hanfodol i hyn yn ogystal â'r fforymau busnes sydd eisoes ar waith er mwyn i'r sector plismona allu meithrin cydberthynas waith â'r gymuned fanwerthu.

**4.a.1.** Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Gwnstabl Blakeman am ddisgrifio'r heriau yn ogystal â'r camau sy'n cael eu cymryd. Nododd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Chynllun Gweithredu Manwerthu sy'n cynnwys cam gweithredu mewn perthynas â Throseddau Manwerthu y bwriedir iddo ddwyn y wybodaeth ynghyd drwy weithio gyda'r sector plismona.

### 4.b. Costau Byw: Effeithiau ar Blismona – Adroddiad wedi'i Ddiweddaru

Roedd y Prif Gwnstabl Lewis am dynnu sylw at rai materion yn yr adroddiad a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod, gan nodi bod yr effaith fewnol ar heddluoedd ledled Cymru yn debygol o barhau yn 2024 gan fod Adroddiad Bevan yn nodi nad yw safonau byw wedi codi yn ystod y 12 mis diwethaf. Nododd fod y rhan fwyaf o heddluoedd o'r farn ei bod yn debygol bod yr argyfwng Costau Byw wedi effeithio ar droseddu, gan bwysleisio ei bod yn bwysig dweud *yn debygol* am fod heddluoedd o'r farn mai Costau Byw sydd wedi effeithio ar rai o'r troseddau meddiangar difrifol fel y nododd y Prif Gwnstabl Blakeman ac, o bosibl, fathau eraill o droseddau, megis Trais a Cham-drin Domestig.

Cyfeiriodd y Prif Gwnstabl Lewis at effeithiau mewnol yr Argyfwng Costau Byw ar weithluoedd ledled Cymru gan nodi bod heddluoedd yn gweld cynnydd yn nifer y staff sydd mewn sefyllfa fregus yn ariannol, sy'n peri risg i bob heddlu o ran bod yn agored i ffactorau megis llygredd. Nododd fod angen gwneud cryn dipyn o waith yn fewnol er mwyn cefnogi staff. Ychwanegodd fod rhai o'r ffactorau eraill sy'n cael eu gweld yn cynnwys cynnydd mewn cyflogaeth eilaidd ymhlith pobl sy'n gweithio yng ngwasanaeth yr

heddlu. Nododd y Prif Gwnstabl Lewis y byddai'n well pe na bai hyn yn digwydd yng ngwasanaeth yr heddlu ond pwysleisiodd fod mesurau diogelwch ar waith ar ffurf cyfundrefn lem lle y caiff cyflogaeth eilaidd ei chymeradwyo.

Awgrymodd y Prif Gwnstabl Lewis fod angen bod yn rhagweithiol o ran y ffordd yr ymdrinnir â materion, gan gynnwys mwy o gynlluniau dargyfeirio ar gyfer y rhai sy'n troseddu a sicrhau bod heddluoedd yn deall y pwysau y mae cyflogeion yn eu hwynebu o ran yr Argyfwng Costau Byw a darparu gwybodaeth a chymorth er mwyn sicrhau bod llai o gyflogeion yn mynd i ddyled.

**4.c. Effaith Pwysau Cyllidebol ar Wasanaethau Cyhoeddus**

Dechreuodd Mr Hussain drwy esbonio mai hwn yw'r arolwg cynhwysfawr cyntaf o sefyllfa ariannol y sector plismona ledled y DU ac, o ran costau cyffredinol, mai costau pobl yw'r prif wariant mewn cyllidebau plismona. Nododd mai cyllidebau staff yr heddlu sydd wedi teimlo'r effaith fwyaf ond bod lefelau swyddi gwag o 6%, ar gyfartaledd, yng nghyllidebau staff yr heddlu eisoes, sy'n cyfateb i tua 5000 o swyddi staff yr heddlu a bod disgwyl i lefelau swyddi gwag gynyddu, tra bod nifer swyddogion yr heddlu yn cael eu cynnal a bod nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi cynyddu ychydig.

Trafododd y Dyfarniadau Cyflog, gan nodi bod £13bn yn cael ei wario ar gyflog ac, felly, y byddai cynnydd o 1% gyda Dyfarniadau Cyflog yn cynyddu costau £130m, sy'n gwneud gwahaniaeth mawr rhwng tybiaethau ynghylch dyfarniadau cyflog ac effeithiau ar gyflog. Nododd fod y rhan fwyaf o heddluoedd wedi cyllidebu ar gyfer 2%. Fodd bynnag, ar gyfer 23/24, mae'r Dyfarniad Cyflog wedi'i gytuno ar 7% gan ychwanegu bod y Swyddfa Gartref wedi cytuno i ariannu lefel y cyflog ychwanegol drwy grantiau ond pwysleisiodd fod pryderon o hyd ynghylch cyllid ar gyfer 24/25.

Disgrifiodd Mr Hussain gamau a gymerwyd gan heddluoedd er mwyn ceisio rheoli'r sefyllfa ariannol ar gyfer 23/24 sy'n cynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn y bydd angen eu hadnewyddu ac adolygu cymysgedd y gweithlu/nifer y staff fel y nodwyd uchod. Nododd fod y sefyllfa yn edrych yn debyg ar gyfer 24/25 gyda'r posibilrwydd y bydd cronfeydd wrth gefn yn parhau i gael eu defnyddio ac y caiff gweithluoedd eu moderneiddio o chwith yn y sector plismona. Roedd Mr Hussain hefyd am dynnu sylw at fater cyllid cyfalaf sy'n cynnwys taliadau llog ar fenthyciadau. Nododd fod heddluoedd ar wahanol gamau mewn perthynas â'u seilwaith cyfalaf ond yr ymddengys fod angen i wariant cyllid cyfalaf gynyddu bob blwyddyn gan fod benthyca ar gyfer gwariant cyfalaf wedi cynyddu fwy nag £1bn mewn dwy flynedd, nad yw'n gynaliadwy ac, felly, y bydd angen dod o hyd i ffynonellau eraill o gyllid. Cyn cloi, cyfeiriodd Mr Hussain at gronfeydd wrth gefn am eu bod yn lleihau, ar y cyfan, ym mhob rhan o'r gwasanaeth, gan nodi mai dim ond cronfeydd wrth gefn a fydd ar ôl gan nifer o heddluoedd erbyn 24/25.

I grynhoi, nododd fod elfen sefydlog mewn cyllidebau sy'n ymwneud â chyflog Swyddogion yr Heddlu sy'n gysylltiedig â Rhaglen Recriwtio'r Heddlu, yn ogystal ag elfennau nad ydynt yn gyflog megis contractau, nwyddau a gwasanaethau sy'n cyfrif am 23%, sy'n golygu bod cyflog yn cyfrif am dri chwarter y gyllideb, nad yw'n ddigonol i ddatrys y pwysau cyllidebol y mae'r sector plismona yn eu hwynebu. Fodd bynnag, nid yw'r baich wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ar draws y sector plismona am ei fod yn drymach ar rai heddluoedd o gymharu ag eraill oherwydd fformiwlâu cyllido.

**4.d. Dull Llywodraeth Cymru o Fynd i'r Afael â Chostau Byw**

Roedd David Willis, Pennaeth Trechu Tlodi, yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn rhoi diweddariad ar y cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig. Amlinellodd nifer o gynlluniau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru o ran cymorth uniongyrchol gyda Chostau Byw gan gynnwys y Gronfa Cymorth Dewisol sy'n cefnogi unigolion a theuluoedd ledled Cymru sy'n wynebu caledi ariannol eithafol o ganlyniad i'r Argyfwng Costau Byw sydd wedi darparu cymorth i fwy na 73,000 o bobl hyd yma. Mae'r Gwasanaeth Cynghori Sengl yn cynnwys yr Ymgyrch Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi ac mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu tua £16m dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i gefnogi sefydliadau bwyd er mwyn helpu i drechu tlodi bwyd.

Trafododd raglenni Ymyriadau Cyflog Cymdeithasol Llywodraeth Cymru sy'n helpu unigolion i gadw eu harian megis Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, y Cynnig Gofal Plant, sy'n lleihau'r baich sy'n gysylltiedig â chostau gofal plant a Phrydau Ysgol am Ddim i Holl blant Ysgolion Cynradd.

Trafododd hefyd gamau ataliol tymor hwy gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc sy'n cynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i unigolion dan 25 oed, Gwasanaeth Cymru'n Gweithio a Rhaglen Cyflogadwyedd Cymunedol. Esboniodd David fod sgiliau cyflogadwyedd da yn helpu i leihau cyfnodau o amser pan fo unigolyn yn ddi-waith ac yn gwella incwm unigolyn, yn y gobaith y bydd hyn yn osgoi'r posibilrwydd y gallai unigolion droi at weithgarwch troseddol er mwyn cael arian.

Rhoddodd David ddisgrifiad byr o Strategaeth Tlodi Plant Cymru sydd wrthi'n cael ei diweddaru ar hyn o bryd. Cyhoeddwyd fersiwn ddiwethaf y strategaeth hon yn 2015 ac mae'n nodi, er bod yr amcanion yn dal i fod yn berthnasol ar y cyfan, fod digwyddiadau pwysig wedi bod ers hynny, megis Brexit, pandemig COVID-19 a'r Argyfwng Costau Byw y mae angen eu hadlewyrchu yn y strategaeth. Mae'r strategaeth yn cynnwys pum amcan strategol, sef:

- Lleihau costau a gwneud y gorau o incwm
- Creu llwybrau allan o dlodi
- Cefnogi llesiant plant a theuluoedd
- Sicrhau y caiff y rhai mewn tlodi eu trin ag urddas a pharch
- Sicrhau mwy o gydweithredu

**4.d.1.** Nododd y Prif Gwnstabl Kelly ei bod am wneud sylw ar y cysylltiad rhwng y cyflwyniadau ond gofynnodd sut y gellid gwneud gwaith ar hyn mewn partneriaeth er mwyn sicrhau na chaiff gwaith ei ddyblygu. Yn ei barn hi, mae angen i Dimau Plismona yn y Gymdogaeth fod yn ymwybodol o'r gwaith y cyfeiriodd Mr Willis ato er mwyn iddynt allu cyfeirio pobl er mwyn ceisio atal rhai o'r pwysau mewn cartrefi unigol. Nododd hefyd, mewn perthynas â chyflwyniadau Mr Hussain, ei bod am godi pryder ynghylch y ffordd y bydd seilwaith plismona yn cael ei gefnogi am fod rhai heddluoedd yn benthyca arian i brynu seilwaith pwysig er mwyn sicrhau y gallant barhau i ddarparu'r gwasanaeth, nad yw'n sefyllfa gynaliadwy. Cyfeiriodd at Heddlu Gwent, fel enghraifft o hyn, lle mae angen dalfa newydd ond lle nad oes cyllideb cyfalaf i'w hadeiladu. Cytunodd Llywodraeth Cymru i rannu amrywiaeth o adnoddau ar gyfer gwneud y gorau o incwm â chydweithwyr o fewn Plismona yng Nghymru a phartneriaid.

**4.d.2.** Mae'r Comisiynydd Michael yn credu bod pob sefydliad yn ystyried effaith yr Argyfwng Costau Byw, gan nodi y gall sefydliadau weld y niwed y gallai ei achosi yn ogystal â'r cynnydd mewn troseddu. Ychwanegodd ei fod am sôn am un peth cadarnhaol, sef bod Heddlu De Cymru wedi gwneud buddsoddiad ychwanegol yn Rhaglen Dyfodol, sy'n adeiladu ar y rhaglen ymyriadau cyffuriau blaenorol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir mewn dalfeydd yn cael ei ddarparu mewn carchardai hefyd a'i fod yn parhau am flwyddyn ar ôl i unigolyn gael ei ryddhau. Nododd y Comisiynydd Michael fod a wnelo hyn â'r ffaith bod De Cymru yn cael ei ystyried yn allanolyn o ran lleihau troseddau meddiangar. Nododd, wrth ystyried y sefyllfa ariannol y flwyddyn nesaf, ei fod yn pryderu ynghylch y cyfeiriad y mae'r sector plismona yn mynd iddo fel y nododd Mr Hussain; cafodd y Dyfarniad Cyflog ei gytuno ar 7% ond, yn y flwyddyn ariannol nesaf, disgwylir i heddluoedd gynnal nifer swyddogion yr heddlu o'r Rhaglen Recriwtio, a fydd yn costio mwy nag y maent yn ei gostio yn y flwyddyn bresennol.

**4.d.3.** Gofynnodd Chris Jennings a yw Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn defnyddio ei sianeli cyfathrebu i gyrraedd unigolion, gan nodi bod y Gwasanaeth Prawf yn goruchwylio unigolion sydd â'r angen mwyaf ledled Cymru. Felly, yn ei farn ef, mae'n gyfle da i rannu gwybodaeth ac, os bydd timau Llywodraeth Cymru yn credu y gallant ddefnyddio Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i gyrraedd unigolion, mae'n fodlon cymryd camau dilynol ynglŷn â hyn.

**4.d.4.** Adleisiodd y Prif Gwnstabl Vaughan y pwyntiau a wnaed heddiw, gan gyfeirio at ansawdd y cyflwyniadau a diolch i Mr Hussain. Yn ei farn ef, byddai'n werth dychwelyd at y mater hwn yn y dyfodol

er mwyn ymdrin â'r materion penodol sy'n ymwneud â risg a chydnerthedd yng Nghymru, yn enwedig sut maent yn cymharu â materion cyfatebol mewn heddluoedd yn Lloegr. Cytunwyd y byddai Risg/Cydnerthedd Ariannol heddluoedd Cymru yn cael ei thrafod (drafod) yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru.

**4.d.5.** Mae'r Dirprwy Gomisiynydd Thomas yn credu y byddai'n ddefnyddiol cynnwys y cyfraniad ariannu y mae Plismona yng Nghymru yn ei wneud, yn arbennig i wasanaethau lleol pan ymdrinnir â'r mater hwn yn y dyfodol, am ei bod o'r farn bod y cyfraniadau y mae Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn eu gwneud o ran gwasanaethau ar y cyd yn elfen y mae angen ei hystyried.

**4.d.6.** Nododd y Prif Gwnstabl Blakeman nad yw am anghofio'r ffaith bod unigolion yn elwa ar hyn a'i bod yn awyddus i helpu'r rhai y mae angen cymorth arnynt ond ei bod o'r farn bod angen strategaeth glir ledled Cymru na fydd Plismona yng Nghymru yn goddef y grwpiau hynny sy'n elwa ar bobl eraill a bod angen mabwysiadu safbwynt cadarn mewn perthynas â hynny.

**4.d.7.** Nododd Chris Batchelor fod disgwyl i'r Swyddfa Gartref gynnal cyfarfod cyn i Setliad Grant yr Heddlu gael ei gyhoeddi. Gofynnodd a hoffai Plismona yng Nghymru nodi a oes unrhyw risgiau sy'n benodol i Gymru y gellid hysbysu'r timau cyllido amdanynt cyn i benderfyniadau gael eu gwneud ynghylch y grant.

**5. Y Gofal Cywir, Y Bobl Gywir**

Rhoddodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gunney ddiweddariad ar y cynnydd allweddol sydd wedi'i wneud hyd yma gan nodi ei bod yn gobeithio rhoi sicrwydd cadarnhaol ynglŷn â'r dull cydweithredol o gyflwyno model Y Gofal Cywir, Y Bobl Gywir ledled Cymru. Disgrifiodd y cynnig ar Aliniad Gweithredol yng Nghymru sy'n cynnwys Tîm Cenedlaethol sy'n gweithio gyda'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gunney lle mae ei rôl yn gweithredu fel rôl cydgysylltydd ar ran heddluoedd yng Nghymru ac y bydd gan bob heddlu ei arweinydd ei hun lle y bydd yn datblygu ei gynllun gweithredu ei hun.

Nododd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gunney, ers cyfarfod diwethaf Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, fod Cytundeb Partneriaeth Cenedlaethol wedi'i gyflwyno yn Lloegr ac, felly, fod llawer o heddluoedd yn Lloegr wedi dechrau ar eu taith at gyflwyno model Y Gofal Cywir, Y Bobl Gywir ac yn cymryd y gwersi a ddysgwyd a'r arferion da o hynny yn ogystal â'r holl risgiau a phroblemau yn cael eu rhannu'n genedlaethol o fewn bwrdd tactegol y mae pob heddlu yng Nghymru yn cael ei gynrychioli arno.

Nododd fod model Y Gofal Cywir, Y Bobl Gywir yn cefnogi polisi presennol yng Nghymru gan gynnwys Strategaeth y Gofal Cywir, y Lle Cywir, yr Adeg Gywir a fydd ar waith tan 2026 yn ogystal â chefnogi egwyddorion y Concordat Gofal Mewn Argyfwng Iechyd Meddwl i Gymru a Strategaeth Iechyd Meddwl Cymru ac, felly, fod llawer o elfennau o strategaethau presennol sy'n trosglwyddo i fodel Y Gofal Cywir, Y Bobl Gywir.

Esboniodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gunney fod y cynnig ar gyfer cyflawni gweithredol yn seiliedig ar ddull fesul cam. Y cam cyntaf yw paratoi. Nododd y bu'n cyfathrebu â Matt Downtown o Lywodraeth Cymru ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn dechrau ar y gwaelod, sy'n golygu meincnodi data a wneir mewn partneriaeth. Nododd fod yr holl heddluoedd yng Nghymru yn disgwyl mynd yn fyw ym mis Ionawr 2024 sy'n gynnwys cynllun cyflwyno 18-24 mis gyda rhywfaint o amrywio rhwng heddluoedd gyda'r gallu i asesu'r effaith wrth bob carreg filltir.

Trafododd y ffaith bod llywodraethu yn un elfen y mae angen parhau i wneud gwaith arni, gan ychwanegu ei bod yn awyddus i weld eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod allweddol i Gymru gyfan gan gynnwys Grŵp Prif Swyddogion Cymru ar gyfer Iechyd Meddwl. Caiff gwaith ei wneud gyda Matt Downton er mwyn ystyried pa drefniadau llywodraethu sydd ar waith yng Nghymru mewn perthynas â model Y Gofal Cywir, Y Bobl Gywir ond pwysleisiodd ei bod yn awyddus i ymgysylltu â Byrddau

Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn lleol.

Nododd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gunney fod Cytundeb Partneriaeth Cenedlaethol ar waith yn Lloegr ac nad oedd yn hanfodol datblygu rhywbeth tebyg yng Nghymru ond y byddai'n ddefnyddiol mewn perthynas â gweithredu gan y byddai'n cefnogi ymrwymiad partneriaeth ac yn cynnig cyfle i randdeiliaid gyfrannu at y cytundeb er mwyn sicrhau cysondeb. Pwysleisiodd y byddai'n ddogfen bartneriaeth yn hytrach na dogfen a arweinir gan bolisi. Mae'n gobeithio croesgyfeirio polisi a strategaethau presennol Cymru fel y nodwyd uchod er mwyn llunio dogfen bwrpasol i Gymru. Gofynnodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gunney am gael gweithio fel gweithgor tactegol er mwyn datblygu hyn i Gymru.

**5.1.** Tynnodd y Comisiynydd Michael sylw at bwynt y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gunney mewn perthynas â'r dull hwn o weithredu am fod ganddo rai pryderon gan y byddai gohebiaeth sy'n dod o Loegr sy'n nodi y gallai'r gwaith hwn gael ei wneud yn ystod y mis nesaf yn rhoi'r argraff anghywir. Nododd fod y dull gweithredu rhesymegol sy'n cael ei fabwysiadu gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gunney yn galonogol a'i fod yn wahanol i'r dull gweithredu yn Lloegr ond y byddai hyn yn gofyn am weithgarwch ymgysylltu llawer ehangach.

**5.2.** Nododd y Prif Gwnstabl Vaughan fod Plismona yng Nghymru yn awyddus i ddysgu o'r hyn sydd wedi cael ei roi ar waith mewn mannau eraill mewn perthynas â model Y Gofal Cywir, Y Bobl Gywir gan y byddai hyn yn cyflawni dyhead Llywodraeth y DU i ddarparu'r gofal gorau i'r bobl sydd ei angen. Pwysleisiodd y Prif Gwnstabl Vaughan y pwynt mai'r bwriad yng Nghymru yw mabwysiadu dull gweithredu methodolegol mewn partneriaeth ond nododd fod pwysau i gyflawni hyn, ac mai dyna'r rheswm dros y dull gweithredu a fabwysiadwyd yn Lloegr.

**6. Unrhyw faterion sy'n codi o gyfarfod Plismona yng Nghymru y dylid eu huwchgyfeirio**
Nododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dunbobbin fod yr eitem hon yn cael sylw yn ystod trafodaethau o fewn yr eitemau craidd.

**7. Diweddariadau gan Bartneriaid yn ôl Eithriad**
**7.a.1.** Nododd y Prif Gwnstabl Blakeman, mewn perthynas â'r eitemau sydd wedi'u trafod, fod heddluoedd yn ceisio rhoi blaenoriaethu i feysydd a all achosi problem dro ar ôl tro. Esboniodd mai'r eitem gyntaf roedd am sôn amdani oedd Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol am fod llawer iawn o waith wedi'i wneud mewn perthynas ag Achrediad ISO ond, yng Ngogledd Cymru, fod cymorth pediatrig yn her. Felly, ar hyn o bryd, maent yn cydweithio â rhanbarth y Gogledd-orllewin, sy'n achosi problemau pan fydd safleoedd yn cael eu hachredu o dan broses ISO. Yn ail, mewn perthynas â Diogelu Plant ac, yn fwy penodol, y ddarpariaeth bartner fel y'i nodwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF, mae'n dod yn fwyfwy anodd cael cefnogaeth Awdurdodau Lleol a hyd yn oed yn fwy anodd yn achos heriau ariannol. Cyfeiriodd at blant yn nalfa'r heddlu fel enghraifft o broblem barhaus. Esboniodd fod a wnelo ei chais gan Lywodraeth Cymru ag uwchgyfeirio'r materion hyn, am fod cyfle i ddwyn yr asiantaethau hyn a ddylai fod yn cydweithio â'i gilydd i gyfrif, yna byddai'n gwerthfawrogi cael cymorth gyda hyn.

**7.a.2.** Soniodd y Comisiynydd Michael am Dechnoleg Adnabod Wynebau fel y cyfeirir ati yn y papur a ddosbarthwyd. Nododd fod mannau lle mae Technoleg Adnabod Wynebau yn cael ei hystyried yn fygythiad gan ddweud, petai unrhyw ddiddordeb mewn dysgu mwy am hyn, fod arddangosiad wedi'i gynnal yng nghyfarfod Panel yr Heddlu a Throseddu yn gynharach yn ystod yr wythnos a ddangosodd ei gwerth, gan ychwanegu ei fod o'r farn y gallai'r dechnoleg hon gael ei hystyried yn beth cadarnhaol petai'n cael ei rheoli'n gywir. Nododd y Prif Gwnstabl Vaughan y byddai'n fodlon hwyluso sesiwn petai gan bartneriaid ddiddordeb mewn dysgu mwy am Dechnoleg Adnabod Wynebau.

**7.a.3.** Roedd y Comisiynydd Llywelyn am nodi bod disgwyl i Wasanaeth Coffa'r Heddlu gael ei gynnal ddydd Sul 24 Medi a nododd fod Heddlu Dyfed Powys wedi'i dristáu o glywed am farwolaeth

ddiweddar yr Arolygydd Gareth Earp, a oedd yn gwasanaethu gyda'r heddlu, mewn Gwrthdrawiad Traffig Ffyrdd, gan ychwanegu y bydd pawb yn meddwl am y teulu a fydd yn bresennol yng Ngwasanaeth Coffa'r Heddlu.

**7c.** Nododd Joanne Hopkins, fel cyd-arweinydd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, ei bod yn gyfrifol am Ymyrryd yn Gynnar/Atal. Nododd fod Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu De Cymru ar flaen o gad o ran y Dull Gweithredu sy'n Ystyriol o Drawma sy'n cael ei fabwysiadu ym mhob rhan o'r system Cyfiawnder Troseddol ond dywedodd ei bod yn fodlon ar y cynnydd sy'n cael ei wneud.

**7d.** Nododd Chris Batchelor fod disgwyl i Araith y Brenin gael ei thraddodi ar 7 Tachwedd 2023 ac y bydd y Swyddfa Gartref wedi trefnu i ddeddfwriaeth nas cyhoeddwyd gael ei chynnwys ynddi ond ei fod wedi cael sicrwydd bod y tîm polisi wedi bod yn ymgysylltu â'u cymheiriaid yn Llywodraeth Cymru er mwyn trafod meysydd a allai fod o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

**7e.** Cyfeiriodd Chris Jennings at broblemau o ran capasiti carchardai fel y'u nodwyd yn y papur a ddosbarthwyd, gan ychwanegu y bu'r system o dan bwysau sylweddol ers peth amser. Cododd bryderon ynghylch hyn gan nodi, os nad yw'r camau a gymerwyd eisoes yn ddigon, y bydd angen i Weinidogion wneud penderfyniadau ar sut y dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF ymateb ond, os bydd hyn yn digwydd, y bydd yn digwydd ar fyr rybudd.

**7h.** Nododd Mark Brace mai'r wythnos hon oedd wythnos Ymwybyddiaeth Cymunedau Mwy Diogel a bod sawl sesiwn ddysgu ar y wefan, petai eu hangen. Nododd fod Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel yn cael eu lansio gyda'r seremoni wobrwyo yn cael ei chynnal ym mis Tachwedd i ddathlu gwaith partneriaeth ym maes diogelwch cymunedol ac ychwanegodd y byddai'n annog enwebiadau.

**8. Unrhyw Fater Arall**
**8.1.** Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'n fuan y byddai gwaith yn dechrau ar y camau ymarferol sy'n gysylltiedig â datganoli plismona a bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar hyn maes o law.

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**
Dydd Llun 18 Rhagfyr 2023 2-4pm